# CYFLE AM SECONDIAD

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

## Senior Procurement Officer

Ydych chi'n barod i gymryd y cam nesaf yn eich gyrfa ym myd caffael? Ydych chi'n angerddol am ddarparu'r gwerth gorau a'r effaith gymdeithasol drwy gaffael? Bydd y rôl hon yn allweddol wrth sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru sydd werth £1bn. Rydym ni yn Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnig cyfle secondiad cyffrous i weithiwr proffesiynol yn y byd caffael sy'n llawn cymhelliant ac yn brofiadol i ymuno â ni ar secondiad. Rydym yn dymuno cael ceisiadau gan ein partneriaid sy'n angerddol am gaffael a gweithio'n rhanbarthol, ac yn chwilio am gyfle i ddatblygu.

### Ynglŷn â'r rôl

Yn barod i greu rhywbeth cyffrous? Fel ein Uwch Swyddog Caffael newydd, byddwch wrth wraidd sefydlu Uchelgais Gogledd Cymru fel Cyd-bwyllgor Corfforedig – a helpu i gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru sydd werth £1bn.

Nid caffael yn unig yw hyn. Mae'n ymwneud â gyrru arloesedd, gwneud y mwyaf o werth cymdeithasol, a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ar draws y rhanbarth. Byddwch yn cefnogi ar reoli contractau a chaffael, yn sicrhau cydymffurfiaeth, yn hyrwyddo arfer gorau, ac yn datgloi cyfleoedd i gyflenwyr a chymunedau lleol.

Byddwch yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr angerddol, cyflenwyr blaengar, a rhanddeiliaid rhanbarthol i ddarparu strategaethau caffael craff, cynaliadwy ac effeithiol – i gyd gan helpu Gogledd Cymru i ffynnu.

### Beth fyddwch chi'n ei wneud:

- Cydlynu rheoli contractau a chaffael ar draws Uchelgais Gogledd Cymru
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau caffael
- Gyrru rhagoriaeth yn mherfformiad contractau a pherthnasoedd cyflenwyr
- Gwneud y mwyaf o werth cymdeithasol a budd cymunedol
- Cefnogi strategaethau caffael arloesol, sy'n barod ar gyfer y dyfodol

### Yr hyn rydyn ni'n chwilio amdano

- O leiaf 3 blynedd o brofiad mewn caffael, rheoli contractau, neu reoli cadwyni cyflenwi, yn y sector cyhoeddus.
- Cymhwyster CIPS Lefel 4 (neu uwch) a thystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- Gwybodaeth gref o reoliadau caffael cyhoeddus (gan gynnwys Deddf Caffael 2023, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)).
- Sgiliau rhagorol mewn dadansoddi, trafod ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

### Yr hyn y byddwn yn ei gynnig/ ei ystyried

- Secondiad am hyd at ddwy flynedd (gyda photensial am hyblygrwydd)
- Cyfle datblygu gwych i weithiwr proffesiynol ym myd caffael
- Croesewir ceisiadau llawn amser, rhan-amser a rhannu swydd

**Am sgwrs anffurfiol, plis cysylltwch â swyddi@uchelgaisgogledd.cymru**

**I ymgeisio, anfonwch gopi o'ch CV at swyddi@uchelgaisgogledd.cymru erbyn 10yb ar y 10/11/2025**